



Cyngor Tref Aberteifi :: Aberteifi Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Ionawr 2009 am 6.30yh yn Ystafell Gwasanaeth Busnes Antur Teifi, Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 January 2009 at 6.30pm at Business Services, Antur Teifi, Pendre.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Linda Grace (**yn y gadair/in the chair**), Mark Cole, David Grace, Alan Wilson, John Adams-Lewis, Mair Morris, Catrin Miles, Gwynfi Jenkins, Wynne Evans, Llwyd Edwards (7.00pm), Melfydd George, Ian Stoker, Wynford Jones (Clerc i'r Cyngor/Clerk to the Council).

Roedd dau swyddog y wasg yn bresennol.

Two press officers were present.

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Two members of the public were present.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Linda Grace, aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, a dymunodd fwyddyn newydd dda i bawb. Cydymdeimlodd gyda'r Cyng Gwynfi Jenkins wedi iddo golli ei chwaer yn ddiweddar. Mynegodd yr aelodau eu cydymdeimlad yn y ffordd arferol. Soniodd y Maer am ei phryderon bod siop Woolworths, a oedd wedi masnachu yn Aberteifi am dros 56 blynedd, bellach yn cau ei drysau am y tro olaf gan golli 35 o swyddi. Gofynnodd i'r clerc i anfon llythyr o longyfarchion i'r Siambr Fasnach ar lwyddiant y Noson Fictoraidd, ac i Mr Robert Jenkins a oedd yn dechrau ar ei swydd fel prifathro Ysgol Gymunedol Aberteifi yn Ionawr. Gyda materion Bath House nawr wedi eu datrys, gobeithion y Maer oedd i bawb gyd-dynnu a symud ymlaen yn gytûn. Atgoffwyd yr aelodau bod dathliadau Aberteifi 2010 ar y gorwel, a bod Ymddiriedolaeth Cadwgan wedi derbyn swm o £300,000 tuag at ei nod o £4.5m oddi wrth Gronfa Treftadaeth y Loteri; roedd yn awr yn gyfle i'r cyngor sir drosglwyddo'r les i'r Ymddiriedolaeth gan ryddhau'r arian yng nghronfa Apêl Castell Aberteifi sydd tan ofal Cyngor Tref Aberteifi ar hyn o bryd. Mae is-etholiad am sedd yn Ward Rhyd-y-fuwch i'w chynnal ar 29 Ionawr 2009.

Ychwanegodd y Cyng. John Adams-Lewis bod cyn-gynghorydd o gyngor y dref, Mr Teifryn Phillips, wedi marw yn ddiweddar.

1. The Chair's welcome and Personal Matters.

Cllr Linda Grace welcomed members of the public to the meeting and wished all members a

happy new year. She offered the council's most sincere condolences to Cllr Gwynfi Jenkins who had lost his sister recently. Members showed their respect in the usual manner. Cllr Grace voiced her concern at the closure of Woolworths after trading for 56 years in Cardigan, resulting with the loss of 35 members of staff. She asked the clerk to forward the council's congratulations on the success of the Victorian evening to Cardigan Chamber Ltd., and the best wishes of the council to the new headteacher of Cardigan Community School, Mr Robert Jenkins, who had commenced duties this term. With the Bath House issue now resolved the Chair hoped that we could now move on as a united council on this matter. Councillors were reminded that the 2010 celebrations were now nearing countdown and that the Cadwgan Trust had received a £300K development grant towards its potential application of £4.5m from the Heritage Lottery Fund. It was now the opportunity for Ceredigion County Council (CCC) to transfer the lease of the Castle to the Trust so that the capital in the Cardigan Castle Appeal account, held by the Town Council, could be released. The by-election for a seat on the Rhyd-y-fuwch ward was announced for 29 January 2009.

Cllr. John Adams-Lewis added that a past councillor of Cardigan Town Council, Mr Teifryn Phillips had recently passed away.

2. Ymddiheuriadau: Y Cyng. Nicky Charlton-Lewis

2. Apologies: Cllr Nicky Charlton-Lewis

3. Trafodaeth gyda swyddogion yr heddlu, os ar gael.

Croesawodd y Maer yr Heddwes Huw Thomas i annerch y cyngor. Cyflwynodd fraslun diddorol. Soniodd fod yr Arolygydd Alfor Evans wedi ei symud i wasanaeth i orsaf Aberteifi am 3-4 mis. Roedd heddwes cymunedol cynorthwyol wedi ei apwyntio, sef Dan Bowen; roedd nifer yr heddwesion cymunedol cynorthwyol yn Aberteifi yn dal i fod yn dri. Rhestrod Pc Thomas y blaenoriaethau fel a ganlyn: (a) ymdrin â phroblem seiclo ar balmentydd ac ar hyd strydoedd un-ffordd; (b) yfed diod feddwol tan oed, yn enwedig ar ystadau Maesglas a Felinban lle gwelwyd troseddau mân yn gysylltiedig â phobl ifanc; (c) ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y dref: roedd 25 o rybuddion cosb wedi eu rhoi gyda dwy weithred gudd i dargedu unigolion – gwaharddwyd caniau alcohol ar adegau; (d) ymgyrch arafu cyflymder ceir ar ein strydoedd; (e) mae ymgyrch yfed/gyrru yn mynd yn ei blaen yr adeg yma o'r flwyddyn; (f) o safbwynt yr heddlu roedd y Noson Fictoriadd yn llwyddiannus gyda dau berson wedi eu restio am dorri ffenestri – cyfeiriwyd hwy at gyd-lynydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Diolchodd y Maer i Pc Huw Thomas am ei gyflwyniad cynhwysfawr, a gwahoddodd y cynghorwyr i ofyn cwestiynau.

Penderfynwyd gofyn i'r clerc anfon llythyr i'r Arolygydd i ofyn ei farn am y mesuriadau i gwtogi goleuadau'r ffyrdd gan y cyngor sir, ac i ofyn am gyngor ynglŷn â'r holl oblygiadau a all godi ger ffiniau ac ardaloedd arbennig a fydd heb olau rhwng canol nos a 5.00yb.

3. Discussion with Cardigan Police Officers, if available.

The Mayor welcomed Pc Huw Thomas to address the council. Pc Thomas gave an informative presentation. He mentioned that Inspector Alfor Evans had been seconded to the Cardigan station for 3-4 months. A replacement PCSO, Dan Bowen, had been appointed; the number of PCSOs in Cardigan remained at three. Pc Thomas listed the priorities as follows: (a) tackle illegal cycling on pavements and on one-way streets; (b) under age drinking,

especially on the Maesglas and Felinban areas where minor criminal damage associated with local youths had occurred; (c) anti-social behaviour in town: 25 fixed penalty notices were issued with two plain clothes operations to target individuals – cans of alcohol were confiscated on occasions; (d) reduce speed on highways campaign; (e) drink/drive campaign is on-going especially at this time of year; (f) Victorian evening was a successful night as far as policing in the town was concerned: two arrests were made for damaged windows – referred to the ASBO co-ordinator.

Cllr Grace thanked Pc Thomas for his informative presentation, and invited councillors to ask questions.

It was resolved that the clerk write to the Inspector asking for the officer's opinion on the pending measures of CCC to reduce street lighting costs within its authority and to seek the local constabulary's advice and concerns regarding the implications which might arise as to specific areas and boundaries being unlit during the hours of midnight and 5.00am.

4. Cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr (2/12/08), y Pwyllgor Arbennig a chofnodion yr Is-bwyllgorau.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y cyngor mis Rhagfyr (2/12/08).

Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Wilson ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis.

Cadarnhawyd cofnodion yr is-bwyllgorau (18/12/08).

Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Wilson ac eiliwyd gan y Cyng. David Grace.

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Arbennig (1/12/08).

Cynigiwyd gan y Cyng. David Grace ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Wilson.

Cadarnhawyd cofnodion "Mewn Pwyllgor" mis Rhagfyr (2/1/208).

Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Wilson ac eiliwyd gan y Cyng. Linda Grace.

4. Confirmation of December minutes (2/12/08), Special Meeting and minutes of sub-committees

The minutes of the council meeting (2/12/08) were approved.

Proposed by Cllr Alan Wilson and seconded by Cllr John Adams-Lewis.

The sub-committee minutes (18/12/08) were approved.

Proposed by Cllr Alan Wilson and seconded by Cllr David Grace.

The Special Meeting minutes (1/12/08) were approved.

Proposed by Cllr David Grace and seconded by Cllr Alan Wilson.

The minutes of the council meeting "In Committee" (2/12/08) were approved.

Proposed by Cllr Alan Wilson and seconded by Cllr Linda Grace.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Tud. 42: Nodwyd gan y Cyng. Alan Wilson bod dau gategori oedd wedi eu cofrestru tan "Coed Nadolig" yn anghywir. Dylent fod wedi eu cofrestru tan B1 ac nid C3.

Tud. 1 o'r Pwyllgor Arbennig: Roedd y Cyng. Melfydd George wedi cofrestru ei ymddiheuriad am ei absenoldeb.

Asiant y Priffyrdd: Mae CSC ar hyn o bryd yn prisio'r gwaith oherwydd bod cynlluniau i ailosod wyneb y ffordd ar y gweill. Nid oedd ganddynt atebion i broblem cyffordd Tesco. Penderfynwyd ysgrifennu at Elin Jones AC er mwyn derbyn gwybodaeth bellach. Cadarnhawyd bod y gwaith i lanhau'r gofeb rhyfel ac i ailosod y cwrbyn i hwyluso'r fynedfa i gadeiriau olwyn mewn llaw.

Mynegodd y Cyng. John Adams-Lewis ei bryderon ynglŷn â'r camgymeriadau a'r diffygion o fewn y teithlyfr rhad a gyhoeddwyd gan y "Western Mail" yn ddiweddar.

Cynigiwyd gan y Cyng. Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Wynne Evans bod y cyngor yn ysgrifennu at y cyhoeddwr gan dynnu eu sylw at y ffeithiau hyn. Cytunwyd gan y cyngor.

5. Matters arising from minutes.

Page 42: Cllr Alan Wilson noted that two codes were incorrectly registered for Christmas tree lights. They should be entered as B1 and not C3.

Page 1 of Special Meeting minutes: Cllr Melfydd George had registered his apology for his non-attendance at the meeting.

Trunk Road Agency: CCC were presently costing the work required as resurfacing of the road was planned. CCC “were in the dark” regarding the Tesco junction. It was resolved to write to the AM Elin Jones to obtain further information. The sand-blasting of the war memorial and restructuring of the lip-step for ease of wheelchair users were confirmed as being in hand with CCC.

Cllr John Adams-Lewis voiced his concern at the errors and omissions in the “Western Mail” free guide which was published recently. It was resolved to write to the publishers drawing their attention to the matter. Proposed by Cllr J. Adams-Lewis and seconded by Cllr Wynne Evans.

6. Datgan Diddordeb gan Gynghorwyr

6. Declaration of Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Rhif 9, tud. 41: Cynllunio/Planning:
Cyng./Cllr Llwyd Edwards	Rhif 9, tud. 41: Cynllunio/Planning: 5a Morgan St.
Cyng./Cllr Mair Morris	Rhif 11 tud. 42: Bachan Deche/Handyperson

7. Gweithgareddau’r Maer. Cylchlythyrwyd cynghorwyr gyda dyddiadur y Maer am fis Tachwedd.

7. Activities of the Mayor. The Mayor’s November diary was circulated to councillors.

8. Trefniadau ynglyn â threfnu’r Praesept a’r Gyllideb ac archwilio gwerth yr asedau. Cytunwyd i gynnal Cyfarfod Arbennig o’r cyngor “Mewn Pwyllgor” i osod y Presaep a’r Gyllideb am 2009-10 ac i brisio’r asedau nos Fawrth, 20 Ionawr 2009 yn Ystafell Gwasanaeth Busnes Antur Teifi am 6.00yh.

8. Arrangements for setting the Precept and Budget, 2009-10 and valuation of assets. It was resolved to hold a Special Meeting of the council “In Committee” for setting the Precept on Tuesday, 20 January 2009 at the Antur Teifi Business Service room at 6.00pm. The valuation of assets would also be undertaken.

9. Cynllunio. Cytunwyd i dderbyn argymhellion yr is-bwyllgor (gweler y tabl isod). Cynigiwyd gan y Cyng Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. David Grace.

9. Planning. It was resolved to accept the sub-committee’s proposals (see table below). Proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr David Grace.

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>		<i>Sylwadau Comments</i>
A08075	Ivory Management Ltd. 27 High Street	Codi adeilad newydd sy'n cynnwys 4 fflat breswyl hunangynhwysol. Erection of new building containing 4 no. self- contained residential flats	Wedi ei dynnu'n ôl. Withdrawn.
A081145	5a Morgan Street	Erection of an external covered way to existing staircase leading to existing offices	Dim sylwadau. No observations

10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir.

Y Cyng. Mark Cole:

(i) Rhoddodd y Cyng. Cole ei adroddiad am y cynnig gan y cynghorydd sir Elen ap Gwyn i osod pencadlys y GIG yn Llanbedr Pont Steffan. Cynigiwyd gwelliant gan arweinydd y cyngor sir, y Cyng. Keith Evans, y dylai'r pencadlys gael ei leoli yng Ngheredigion. Eiliwyd y gwelliant gan y Cyng. Mark Cole. Cariwyd y gwelliant.

(ii) Ymatebodd y Cyng. Cole i achwynion deiliaid Brynhafod ynglŷn â chyflymder ceir ar y stad. Roedd y broblem yn awr, gobeithio, wedi ei datrys.

(iii) Roedd y Cyng. Cole a'r ddau gynghorydd sir arall wedi eu cyfweld gan Radio Cymru ynglŷn â chau siop Woolworths am y tro olaf – y siop olaf o'r cwmni i gau ei drysau.

Y Cyng. John Adams-Lewis:

(i) Ailadroddodd y Cyng. Adams-Lewis eiriau'r Cyng. Mark Cole ynglŷn â lleoliad pencadlys GIG yng Ngheredigion. Roedd ef a'r Cyng. Catrin Miles wedi pleidleisio dros y gwelliant.

(ii) Roedd y Cyng. Adams-Lewis a'r aelod cynulliad wedi ymweld â staff siop Woolworths yn ystod dyddiau olaf masnachu i gynnig eu gobeithion am y dyfodol wrth iddynt wynebu diswyddaeth.

(iii) Cadarnhaodd y Cyng. Adams-Lewis bod y gwaith ar y gofeb rhyfel a'r cwrbyn sydd yn arwain tuag at y gofeb mewn llaw gan y cyngor sir.

Gofynnodd y Cyng. Llwyd Edwards i'r cyngor ofyn i'r cyngor sir sut yr oeddent yn gweld dyfodol tref Aberteifi fel canolfan fusnes, ac i ofyn iddynt ystyried gostwng y dreth fusnes yng nghanol y dref yn dilyn y broblem ariannol ddyrys.

Ychwanegodd y Cyng. Mark Cole y dylid gofyn i adran priffyrdd CSC i ystyried hepgor taliadau meysydd parcio'r dref dros gyfnod y Nadolig 2009.

Dywedodd y Cyng. Mair Morris bod diflaniad Woolworths yn agor drysau i ddatblygu ardal Pwllhai. Gofynnodd i lythyr gael ei anfon at Modus Dev. sydd â chyfrifoldeb am y safle ac i ofyn iddynt beth yw eu cynlluniau pellgyrhaeddol.

Gofynnodd y Cyng. Gwynfi Jenkins am eglurhad a diweddariad oddi wrth y cyngor sir ynglŷn â safle Bath House. Cytunwyd gosod y mater hwn ar agenda mis Chwefror cyn ysgrifennu at y cyngor sir.

Y Cyng. Catrin Miles:

(i) Ailadroddodd y Cyng. Miles ei theimladau ynglŷn â safle'r pencadlys i'r GIG. Ychwanegodd y byddai'r safle a gynigiwyd i'r archfarchnad newydd yn ddelfrydol i'r pencadlys gan greu nifer o swyddi i'r sector cyhoeddus.

(ii) Mynegodd y Cyng. Miles ei phryderon ynglŷn â diogelwch ar Heol Llandudoch a bod angen prosesu cais am lwybrau diogel yn y gymuned. Teimlai fod y palmentydd cul iawn yn anobeithiol i blant bach droedio arnynt. Yn dilyn cais y Cyng. Miles cytunodd CSC roi caniatâd am fan croesi â chwrbe isel ar Heol Llandudoch.

(iii) Penrhodyn: mae angen rhagor o wybodaeth ynglŷn a pherchnogaeth y tir a phwy sydd â hawl tramwy.

(iv) Ychwanegodd y Cyng. Miles bod y warchodfa bws yn Sgwâr Finch ar fin cael ei hailgodi wedi'r ddamwain ddiweddar.

Rhoddodd y Cyng. Llwyd Edwards, cynrychiolydd cyngor y dref ar bwyllgor Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Aberteifi (SAC), adroddiad ar y cyfarfod diweddar.

Dywedodd fod gofid difrifol gan bysgotwyr Cei Newydd ac Aberaeron ar y carthu gyflgregyn yn y bae, yn enwedig o fewn 6 milltir i'r arfordir. Mae 72 o drwyddedu wedi eu dosbarthu i gychod pysgota o amryw borthladdoedd o amgylch y DU. Mae carthu gyflgregyn yn rhwygo gwely'r môr ac yn dinistrio'r cyfan sydd yn gorwedd ar y gwaelod. Mae hefyd yn fygythiad difrifol i fywyd gwyllt y bae. Bydd rheolaeth o'r carthu yn syrthio ar y Cynulliad cyn bo hir ac mae gofid y bydd y safonau yn ymlacio. Atebodd y Cyng. Wynne Evans fod yn rhaid ystyried y cwtogiad hyn am fod nifer o gychod yn gweithio allan o Aberteifi.

10. Reports from County Councillors.

Cllr Mark Cole:

(i) Cllr Cole reported on the motion by County Cllr Elen ap Gwyn to locate the proposed NHS headquarters at Lampeter. An amendment was proposed by the leader of Ceredigion County Council, Cllr Keith Evans, that the HQ be sited in Ceredigion. This amendment was seconded by Cllr Mark Cole and duly carried.

(ii) Cllr Mark Cole had responded to the complaints received from residents at Brynhafod regarding the speeding along the cul de sac. This matter was now, hopefully, resolved.

(iii) Cllr Cole reported that he and the two other county councillors on the council had been interviewed on Radio Cymru regarding the closure of Woolworths store in Cardigan - the last of the entire chain to shut its doors.

Cllr John Adams-Lewis:

(i) Cllr Adams-Lewis reiterated Cllr Cole's statement on the location of the NHS HQ and added that he and Cllr Catrin Miles had voted in favour of the amendment.

(ii) Cllr Adams-Lewis had accompanied the AM to the Woolworths store during the last days of its trading and had offered words of encouragement to the staff who now faced redundancies.

(iii) Cllr Adams-Lewis confirmed that sandblasting the war memorial and restructuring the lip-step at the location were now in hand with CCC.

Cllr Llwyd Edwards interjected with the following: to question CCC how they envisage the future of Cardigan as a business centre and would they consider reassessing the business rates in the High Street following the critical downturn experienced by local businesses.

Cllr Mark Cole added that the Highways Dept. of CCC should now be requested to consider waiving car parking fees in Cardigan over the Christmas period, 2009.

Cllr Mair Morris pointed out that the closure of the Woolworths store now opens new avenues regarding the development of the Pwllhai site. She asked that a letter be forwarded to Modus Developments who has responsibility for that site, and also enquire as to their long-term intentions.

Cllr Gwynfi Jenkins asked whether the present planning at Bath House could be clarified and requested an update from CCC. It was agreed to place this on the February agenda before writing to CCC.

Cllr Catrin Miles:

(i) Cllr Miles reiterated the statements of Cllrs Cole and Adams-Lewis regarding the location of the HQ of the NHS in Ceredigion. She added that the site of a proposed supermarket could be put to a better use as a HQ thereby creating a number of public sector jobs.

(ii) She aired her concerns regarding the hazards on St Dogmaels Road and our need to apply for safe routes in the community. She added that the narrow pavements were precarious for young children. CCC had reported that permission had been granted for a dropped kerb crossing point to be installed on the St Dogmaels road.

(iii) Penrhodyn: more information is sought from CCC regarding the ownership of land and who has right of way.

(iv) Cllr Miles reported that the erection of the new bus shelter in Finch Square would be finalised shortly following the recent accident.

Cllr Llwyd Edwards, the Town Council representative on the Cardigan Bay Special Area of Conservation (SAC), reported on the recent SAC meeting. He stated that there is a serious concern by fisherman from New Quay and Aberaeron at the large extent of scallop dredging in the bay, especially within 6 miles of the coast. 72 licences have been issued to fishing boats from various harbours around the UK. Scallop dredging rips the sea bed and destroys everything that is lying on the bottom. It is a serious threat to the wild life in the bay. Control of dredging will soon pass to the Assembly and there is concern that standards will not be relaxed.

In reply Cllr Wyn Evans expressed concern against curtailment of scallop dredging as there were a few boats operating out of Cardigan.

11. Biliau i'w talu – Adroddiad Incwm a Gwariant hyd 31 Rhagfyr 2008.

Cytunwyd i dalu'r biliau (gweler y tabl isod). Gofynnodd y Cyng. Alan Wilson am ganiatâd i dalu biliau am ddefnydd trydan at y goleuadau Nadolig 2008, sef cyfanswm o £420.45.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George.

11. Bills to be paid – Income and Expenditure Report to 31 December 2008.

It was agreed to pay the listed bills (see table below). Cllr Alan Wilson asked if the bills for the electricity used on the Christmas lights 2008 amounting to £420.45 could also be

authorised.

This was agreed.

Proposed y Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Melfydd George.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Taledigion / Payee</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
8/12/08	BDO Stoy Hayward	A11	3081	£499.38 (£74.38)
17/12/08	J. Harries, Refrigeration	B1	3082	£12.16 (£1.81)
17/12/08	M. & E. Pearce	B1	3083	£64.23 (£9.58)
17/12/08	Red Hot Group: Printer	A16	3084	£79.00 (£10.30)
31/12/08	L. W. Jones : Cyflog/Salary	A3	3085	£528.11 (0.00)
14/12/08	BT	A19	3086	£66.65 (£8.10)
28/11/08	Menter Bro Dinefwr	A17	3087	£254.00 (0.00)
30/11/08	Swallow Office Supplies	A5	3088	£57.56 (£8.57)
1/12/08	J. D. R. Thomas, C.N. Emlyn	C3	3089	£80.50 (£10.50)
30/11/08	Antur Teifi, Hurio Ystafell/ Hire	A7	3090	£100.00 (0.00)
31/12/08	Bachan Deche/Handyperson	A18	3091	£65.00 (0.00)

12. Gohebiaeth.

12. Correspondence.

<i>Llythyron i'w nodi</i>	<i>Letters to be noted / read</i>
Apêl Arch Noa: cais am gymorth ariannol	Noah's Ark Appeal: application for financial aid
Y Cardi Bach 2009: cais am gymorth ariannol	Cardi Bach 2009: application for financial aid
CSC: ateb oddi wrth Mrs Helen Harries ynglyn â chostau etholiadol	CCC: reply from Mrs Helen Harries regarding election costs.

CSC: cylchlythyr “Materion Cynllunio”	CCC: newsletter “Planning Matters”.
Joyce Watson AC: ateb i lythyr ynglyn â safle Pencadlys GIC	Joyce Watson AM: reply to letter re. merged services
CSC: Opsiwn 3 – goleuadau strydoedd	CCC: Option 3 – street lighting
CSC: Hysbysiad Etholiad	CCC: Election Notice
CSC: Fforwm Teledu Cylch Cyfyng Ceredigion	CCC: CCTV Forum, 7/1/2009
CSC: Pwyllgor Ymgynghorol Rheoli Traffig Ceredigion (Aberteifi), 9/1/2009	CCC: Ceredigion Traffic Management Consultative Committee (Aberteifi), 9/1/2009
CSC: Trefniadau’r Praesept 2009-10	CCC: Precept Arrangements 2009-10
CSC: Cynllun Grantiau Bach Gweithgaredd Lles i hybu Iechyd a Lles yng Ngheredigion	CCC: Wellbeing Activity Small grants scheme to promote Health and Wellbeing in Ceredigion
CSC: Gohirio Cau Ffordd Dros Dro, Stryd y Santes Fair	CCC: Temporary Road Closure Postponement, St Mary Street
Urdd Gobaith Cymru: llythyr o ddiolch	Urdd Gobaith Cymru: acknowledgment of grant
WPS Insurance Brokers: taflen	WPS Insurance Brokers: leaflet
BDO Stoy Hayward: dogfenni i gadarnhau terfyniad yr archwiliad	BDO Stoy Hayward: documents to confirm completion of audit
Chwarae Cymru: taflen	Play Wales: leaflet
M. & E. Pearce: llythyr – angen dewis elusen	M. & E. Pearce: letter – choice of charity
Hannah, Bro Teifi: carden o ddiolch	Hannah, Bro Teifi: greeting card of thanks
Joyce Watson AC: llythyr safle Pencadlys GIC	Joyce Watson AM: letter re. site for new NHS HQ
CSC: Meysydd Parcio Aberteifi	CCC: Cardigan Car Parks
CSC Priffyrdd: taflen gyfarch 164439	CCC Highways: compliment slip 164439

Seren: taflen wybodaeth	Seren: information leaflet
Cyngor Iechyd Cymuned: Cyfarfodydd 2009	Community Health Council: Meetings 2009
CSC: “Diogel yng Ngheredigion”	CCC: “Safe in Ceredigion”
Elin Jones AC: llythyr safle Pencadlys GIC	Elin Jones AM: letter re. site for new NHS HQ
Penri James: llythyr ynglyn â thlodi plant yn wardiau Teifi a Rhydyfuch	Penri James: letter regarding child poverty in Teifi and Rhydyfuch wards.
Brioude: derbyniwyd carden Nadolig	Brioude: Christmas card received
Cyfarfod Cymdeithas Clercod Lleol: agenda a chofnodion	Society of Local Council Clerks: agenda and minutes
CSC: datganiad is-etholiad, 29/1/09	CCC: statement of by-election 29/1/09
Adroddiad y Bachen Deche	Report of the Handyperson
CSC: nodyn atgoffa sesiwn hyfforddi	CCC: reminder of training session
Elin Jones AC: poster cymorthfeCymdeithas Clercod Lleol:ydd	Elin Jones Am: notices of surgeries
Siambwr Masnach Aberteifi: cais am gymorth ariannol	Cardigan Chamber Ltd: request for financial aid
Menter Aberteifi: cais am gymorth ariannol	Menter Aberteifi: request for financial aid
Uchel Siryf Dyfed: carden cyfarch	High Sheriff of Dyfed: greeting card

- (a) Cais am gymorth ariannol CSC i'r “Cardi Bach” i’w osod ar agenda cyfarfod y Presaep a’r Gyllideb.
- (b) Angen gofyn i CSC osod y Cyng. Ian Stoker ar restr e-bost yr awdurdod er mwyn iddo gael y wybodaeth gywir mewn da bryd.
- (c) Y cynghorwyr sir a’r Maer (cynrychiolydd cyngor y dref) i fynychu cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Rheoli Traffig Ceredigion (9/1/09)
- (d) “Cynllun Grantiau Bach Gweithgaredd Lles i hybu Iechyd a Lles yng Ngheredigion” i’w osod ar agenda mis Chwefror.
- (e) M. & E. Pearce: Y Maer a’r Clerc i benderfynu ar elusen i dderbyn yr arian a ddychwelwyd gan Mr a Mrs Pearce yn ôl eu dymuniad.
- (f) CSC “Diogel yng Ngheredigion”: cytunwyd i’r Maer lanw’r holiadur.
- (g) Adroddiad y Bachen Deche: y Cyng. Llwyd Edwards i ymgynghori gyda’r Clwb

Bowls ynglŷn â chyflwr yr haen ar ben pella'r MPPA. Llythyr pellach i'w anfon gan y cyngor. Mater y bin plastig ailgylchedig i'w osod ar agenda cyfarfod y Presaep't a'r Gyllideb.

(h) Siambr Masnach Aberteifi: cais am gymorth ariannol i'w osod ar agenda cyfarfod y Presaep't a'r Gyllideb.

(i) Menter Aberteifi: cais am gymorth ariannol i'w osod ar agenda cyfarfod y Presaep't a'r Gyllideb.

(j) Cyfarfod Cymdeithas Clercod Lleol: Y Clerc i fynd i'r cyfarfod ar Sadwrn, 24 Ionawr 2009.

(a) The CCC "Cardi Bach" application for financial aid to be placed on the agenda for the Precept and Budget meeting.

(b) CCC to be requested to place Cllr Ian Stoker on their e-mail list to receive notification of meetings, etc. in good time.

(c) County councillors and Cllr Linda Grace (town council representative) to attend meeting: Ceredigion Traffic Management Consultative Committee (9/1/09).

(d) "Wellbeing Activity Small grants scheme to promote Health and Wellbeing in Ceredigion": to be placed on agenda for February.

(e) M. & E. Pearce: Mayor and Clerk to decide upon a charity to receive the donation returned by Mr and Mrs Pearce as per their instructions.

(f) CCC: "Safe in Ceredigion" – it was agreed that the Mayor would complete questionnaire.

(g) Handyperson's Report: Cllr Llwyd Edwards to confer with the Bowling Club re. the sunken tarmac at the far end of the MPPA. A further letter to be forwarded by the town council. The item of the recycled plastic bin placed on the agenda for the Precept and Budget meeting.

(h) Cardigan Chamber Ltd.: application for financial aid to be placed on the agenda for the Precept and Budget meeting.

(i) Menter Aberteifi: application for financial aid to be placed on the agenda for the Precept and Budget meeting.

(j) Society of Local Council Clerks: The Clerk to attend the meeting on Saturday, 24 January 2009.

13. Meysydd Parcio Aberteifi

Cytunwyd i dderbyn Opsiwn 2 o'r pum opsiwn a gyflwynwyd gan y cyngor sir. "36 (50%) o gilfachau parcio byr gyda'r 36 eraill yn aros fel cilfachau hir-amser". Yr argymhelliad yn cymryd yn ganiataol y bydd hyd parcio y maes parcio isaf yn gyfyngedig i 4 awr man pella.

Cynigiwyd gan y Cyng. David Grace ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Wilson.

13. Cardigan Car Parks

It was agreed to accept Option 2 of the five CCC proposals offered: "36 spaces (50%) become short stay with the other 36 remaining as long stay". This proposal is assumed that the lower car park will be limited to 4 hours' stay.

Proposed by Cllr David Grace and seconded by Cllr Alan Wilson.

14. Adroddiadau'r is-bwyllgorau ac Adroddiad y Bachan Deche.

Gweler Gohebiaeth eitem 12(g) [uchod].

**Cofnodion is-bwyllgor 2010 a gynhaliwyd yn y Ganolfan Hanes ar 16 Rhagfyr 2008
[gweler tudalen 56]**

14. Sub-committee reports and Handyperson's Report.

See correspondence: item 12(g) [above].

Minutes of the 2010 sub-committee held at the Heritage Centre on 16 December 2008 [see page 56]

15. Goleuadau'r Strydoedd

Dosbarthwyd yr adroddiad a baratowyd gan y Cyng. David Grace (cynrychiolydd y cyngor) yn dilyn pwyllgor CSC i drafod materion goleuadau strydoedd. Cyn i unrhyw argymhellion gael eu cynnig gerbron y cyngor, rhaid dychwelyd y mapiau strydoedd a'r wybodaeth angenrheidiol i'r Cyng. David Grace cynted â phosib.

Gofynnodd y Cyng. Wynne Evans i'r cyngor gysylltu â'r wasg er mwyn rhoi'r wybodaeth gerbron y cyhoedd ynghyd â'r goblygiadau ariannol.

Adroddodd y Cyng. Alan Wilson fod Goleuadau Derwen (contractwyr goleuadau Ceredigion) wedi galw yn Neuadd y Dref i ddynodi pa le y gellir gysylltu'r trydan difesur yn Rhes y Coleg. Byddai hyn yn golygu bod y cyflenwad wedi ei gysylltu'n uniongyrchol heb effeithio ar y mesurydd. Nid oes dyddiad cwblhau'r gwaith wedi ei gadarnhau ar hyn o bryd.

15. Street Lighting.

The report prepared by Cllr David Grace, who attended the meeting organised by CCC on 1 December 2008 as a town council representative ("Possible Measures to Reduce Street Lighting Costs") was distributed. Before any proposals could be submitted by the Town Council, it was requested that all councillors return the street light maps with all relevant information to Cllr Grace as soon as possible.

Cllr Wynne Evans asked the council to involve the press to publicise the issue in order to inform the public of the implications and cost involved.

Cllr Alan Wilson reported that Derwen Lighting (Ceredigion's street lighting contractors) had called at the Guildhall and identified where they could connect the unmetered supply in College Row. This meant that the light will be directly connected to the incoming supply allowing the meter to remain unaffected. As yet, date of completion of this work has not been confirmed.

16. Derbyn Ffurflen Flynyddol a dyfarniad terfynol yr archwilwyr allanol, BDO Stoy Hayward LLP.

Derbyniwyd y Ffurflen Flynyddol gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Wynne Evans.

16. To accept the Annual Return and the final audited opinion of the external auditors, BDO Stoy Hayward LLP.

The Annual Return was accepted by the council.

Proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Wynne Evans.

17. Mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol newydd o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

(ICO), 1 Ionawr 2009: Rhyddid Gwybodaeth – Gwireddu'ch rhwymedigaeth i ddatgelu.

gwybodaeth.

Cyflwynwyd y ddogfen gan y Clerc. Penderfynwyd cylchlythyru'r cynghorwyr a gosod yr eitem ar agenda mis Chwefror.

17. Adoption of the new Model Publication Scheme from the Information Commissioner's Office

(ICO): Freedom of Information – Fulfilling your obligation to disclose information.

The document was presented by the Clerk. It was resolved and agreed to circulate all members with copies for discussion at the February council meeting.

18. Maes Radley: Adroddiad y Cyng. Catrin Miles.

Wedi trafodaeth fer i drafod dirywiad wyneb y cae chwarae ym Maes Radley, penderfynwyd anfon llythyr i'r cyngor sir gan ofyn iddynt am eu bwriadau ynglŷn â lles dyfodol y maes.

18. Maes Radley: Report – Cllr Catrin Miles

After a short discussion as to the deterioration in the playing surface of Maes Radley it was agreed that a letter be forwarded to CCC questioning their intentions for the wellbeing of Maes Radley.

19. Trefniadau ynglŷn â phwyllgor ymgynghorol Maes Chwarae Brenin Siôr V Gohiriwyd y mater yma hyd y cyfarfod nesaf o'r cyngor.

19. Arrangements re. King George V Playing Field advisory committee.

This matter was deferred to the next meeting.

20. Materion Personél (Mewn pwyllgor)

Nid oedd materion i'w trafod.

20. Personnel Matters (In Committee)

No matters were discussed.

21. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

21. Any Other Business at the Mayor's discretion.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.02yh.

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 9.02p.

Adroddiadau'r Is-Bwyllgorau Sub-Committee Reports

**Cofnodion is-bwyllgor 2010 a gynhaliwyd yn y Ganolfan Hanes 16 Rhagfyr 2008.
Minutes of the 2010 sub-committee held at the Heritage Centre on 16 December 2008.**

Yn bresennol/Present : Cyng./Cllrs Linda Grace, A. Wilson, Ll. Edwards, M. Cole, N. Charlton-Lewis, Melfydd George, John Adams-Lewis, David Grace, Wynne Evans and the Clerk.

Ymddiheuriadau/Apologies : Cyng./Cllr Gwynfi Jenkins.

Ehangodd y Cyng. Llwyd Edwards ar ei adroddiad blaenorol yn y cyfarfod cyngor 2 Rhagfyr 2008.

Ychwanegodd bod y Prifardd Ceri Wyn yn lawnsio llyfr yn ystod y flwyddyn.

Ymchwiliadau yn mynd yn eu blaen ynglŷn ag arddangosfa hanes Aberteifi dros y canrifoedd. Mr Keith Ladd wedi cytuno i fod yn gyfrifol am hyn.

Trafodwyd y posibilrwydd o gynhyrchu mygiau a phlatiau dathlu. Y bwriad yw rhoi mygiau am ddim i blant ysgolion cynradd ac i werthu y platiau ar raddfa busnes. Cyngor y Dref i drefnu cynllunio ac i ariannu'r ddau brosiect. Angen darganfod prisiau oddi wrth amryw grochenwyr.

Cais i'w wneud yn gofyn i bwyllgor Addysg Ceredigion i ystyried dydd Gwyl Ddewi fel diwrnod gwyl yn 2010.

Te parti i blant i'w drefnu ar ddydd Gŵyl Ddewi.

Ychwanegodd y Cyng. John Adams-Lewis y byddai'r cawl arferol yn cael ei drefnu i ddathlu Gŵyl Ddewi yn festri'r Tabernacl.

Cyfnod i brofi gwahanol chwaraeon megis hwylio, gymnasteg, nofio, carate. Bydd y tafarnau lleol yn trefnu digwyddiadau eu hunain.

Cllr Llwyd Edwards elaborated on his previous report presented at the council meeting, 2 December 2008.

He added that y Prifardd Ceri Wyn would be launching his new book during the year. Research continuing to present a photographic display of Cardigan over the ages. Mr Keith Ladd had agreed to be responsible for this venture.

The production of mugs and celebratory plates was discussed in detail. Mugs to be presented to Junior School pupils free of charge, and plates to be produced as a business venture. The design and production of the goods to be funded by the town council. Estimates to be sought from various potteries.

Application to be submitted to Ceredigion Education Authority requesting them to consider making St David's Day 2010 a local holiday.

St David's Day Tea party to be arranged.

Cllr John Adams-Lewis added that there would be the usual St David's Day Cawl prepared at the Tabernacle vestry.

Sport taster days to be organised, including sailing, gymnastics, swimming, karate.

Local pubs to organise their own events.

Arwyddwyd/*Signed*
(Cadeirydd/*Chairperson*)

Dyddiad/*Date*

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r cyngor i drafod y Gyllideb a gosod y Presaep am y flwyddyn ariannol 2009-10 a gynhaliwyd nos Fawrth, 20 Ionawr 2009 am 6.00yh yn Swyddfa Gwasanaeth Busnes, Antur Teifi, 36-38, Pendre. Cynhaliwyd y cyfarfod "Mewn Pwyllgor".

Minutes of the Special Meeting to discuss the Budget and set the Precept for the 2009-10 financial year, held on Tuesday, 20 January 2009, at 6.00pm at Business Service Office, Antur Teifi, 36-38, Pendre. The meeting was held "In Committee".

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Linda Grace (**yn y gadair/in the chair**), Mark Cole, John Adams-Lewis, Catrin Miles, David Grace, Ian Stoker, Alan Wilson, Mair Morris, Wynne Evans, Gwynfi Jenkins, Nicky Charlton-Lewis, Llwyd Edwards (gadawodd/departed 7.10pm), Melfydd George.

I drafod argymhellion Cyngor Sir Ceredigion i ddiffodd rhai goleuadau strydoedd rhwng 12 canol nos a 5yb.

Cynigiodd y Cyng. Mark Cole swm o £1,000 i'w osod yn y gyllideb at yr uchod, ac eiliwyd gan y Cyng. Wynne Evans. Trechwyd y cynnig gan 7 pleidlais i 4, felly derbyniwyd y swm sero.

To discuss Ceredigion County Council's proposals on cutting street lighting between midnight and 5.00am

Cllr Mark Cole proposed that the a sum of £1,000 be set in the budget for the above. Seconded by Cllr Wynne Evans. This was defeated by 7 votes to 4, thus the sum remained at zero.

Cynigiodd y Cyng. Mark Cole i gynyddu'r presaept yn ôl 2% am y flwyddyn ariannol 2009-10. Eiliwyd gan y Cyng. Mair Morris. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol gan y cyngor. Gosodwyd y presaept, felly, yn £69,850.47.

Cllr Mark Cole proposed that the precept be increased by 2% for the financial year 2009-10. This was seconded by Cllr Mair Morris. This proposal was carried unanimously by the council. The precept, therefore, was set at £69,850.47.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/
Chairperson)

Dyddiad/Date